

A yw pob enw i lawr yn y gwyrthiol Lyfr Mawr?

Libri Wallie. 1546 - 1820. Eiluned Rees. Dwy gyfrol. Argraffiad o 500 copi. Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Tt. 923 a XC. 1987

MAE'R gwaith hwn o dros fil o dudalennau yn sylfaenol bwysig i efrydwyr ein llynyddiaeth. Bu gweithiau tebyg o'r blaen fel *Llyfryddiaeth y Cymry* gan Gwilym Llwyn sydd yn rhestru gweithiau argraffedig Cymreig hyd 1799. Fe'i dilynwyd gan Charles Ashton, a aeth â'r rhestr ymlaen hyd 1810. A bu rhestrau eraill llai uchelgeisiol.

Trefn enwau awduron yn ôl yr wyddor a ddewisodd Miss Rees, ond pan nad oes enw awdur dryr brif air y teitl neu, dro arall, enw'r gymdeithas sy'n gyfrifol am y cyhoeddiad fel, er enghraifft: 'Gwyneddigion.'

Rhifir pob gwaith o 1 i 5656 a nodir pob argraffiad o lyfr fel eitem annibynnol: e.e., bu 208 o fersiynau o'r Beibl yn ystod 1546-1820 a 65 o'r Llyfr Gweddi Gyffredin.

Ynglŷn â'r ddau deitl hyn, mae'r awdur wedi rhoi'r prif gyfeiriad yn Saesneg: fel: 'BIBLE Welsh,' pan yw'r teitl ei hun yn Gymraeg. Gwir fod sillafiad y teitl Cymraeg yn amrywio (Beibl: Bibl) er mai 'Beibl' yw'r ffurf a dderbyni'r heddiw.

Ond gwell fuasai defnyddio'r ffurf 'Beibl' yn brif bennawd ac arbed y gair 'Welsh' pan fo'r argraffiad dan sylw yn un Cymraeg?

Sylwaf mai 'CASGLIAD' (I. t130) yw'r prif bennawd pan restrir gweithiau felly, ond er mwyn cysondeb onid 'Collection' ddylai hynny fod? Gellid nodi enghreifftiau eraill o'r un peth.

Ond mân bethau yw'r rhai hyn. Yn ail hanner yr ail gyfrol ceir mynegeion tra defnyddiol, sef teitlau'r holl weithiau a restrir yn nhrefn yr wyddor; yna, mynegai o enwau sydd hefyd yn cynnwys enwau awduron a chymdeithasau. Yn dilyn hyn, ceir mynegai cronolegol sy'n dangos, wrth eu rhifau, pa gyhoeddiadau a gafwyd yn flynyddol o 1556 hyd 1820. Trwy hyn, gellir gwybod faint o eitemau a gyhoeddwyd mewn unrhyw flynyddyn.

I gwplâu'r mynegeion, rhoddir rhestr o'r manau a'r bobl a fu ynglŷn â'r fasnach lyfrau yng Nghymru ac o'r tu allan; nid yn unig hynny, ond dangosir wrth eu rhifau pa gyhoeddiadau y buont yn gyfrifol amdanynt. Ac fel petai hyn i gyd ddim yn ddigon, mae

D. TECWYN LLOYD yn amheus iawn

gan Miss Rees fonograff ar ddiwedd Cyf: II, sydd ei hunan o faint llyfr pur solet ar y fasnach lyfrau Cymreig cyn 1820.

Igloi ceir 18 tudalen o luniau addurniadau a ddefnyddid gan argraffwyr y cyfnod ynghyd â map o Gymru i ddangos manau lle ceid argraffu cyn 1820. Gwaith enfawr.

* * *

TROWN am ennyd at y cynnwys. Er bod yna 5656 o gyhoeddiadau, nid oes agos gymaint â hynny o deitlau gwahanol. Adargraffiadau yw llawer a bu nifer mawr o'r rheini o ambell deitl fel y Beibl, Cannwyll y Cymru, John Bunyan, a'u tebyg.

Wrth fynd drwy'r holl waith a nodi pob cyhoeddiad crefyddol ei natur, gwelir fod ychydig gros ddwy ran o dair (67.2%) o 1546 ymlaen yn ddeunydd felly a dim ond rhyw 32% yn bethau gwahanol.

Yn wir, wrth edrych ar y corff hwn o'n llynyddiaeth, ni allwn lai na themlo mai deunydd undonog a diflas, - 'dreary' yw'r gair - fu cymaint ohono. dyna'r holl gyfieithiadau Saesneg, mân lyfrau a phamffledi diwyddol (os haeddant yr enw) ac ysgrifurrol, y pentyrrau 'hymnau', y catecismau a'r holwyddoregau, y marwnadau i dduwiolion a llyfrynau trefniadol yr enwadau: y cyfan yn dangos mor llwyr angofiedig oedd ein deunydd cynnar, yn rhyddiaith a barddoniaeth.

Eithriadau mawr, fel y gwelir oedd pobl fel y Morrisiaid a'r Gwyneddigion a phobl brin oedd hyd yn oed yr anterliwdwyr a'r baledwyr.

Peth arall sy'n ein taro yw absenoldeb llyfrau Hanes; h.y., hanes gwlad ar ryw wedd neu'i gilydd. Ceir digon o deitlau sy'n dechrau gyda'r gair 'Hanes', ond sôn y maent am bethau unigol a dibwys fel 'Hanes bachgen a frathwyd gan gi cynddeiriog' a'u tebyg.

Dim ond ynglŷn ag enwadau crefyddol a chrefydd y ceir llyfrau mwy cyffredinol eu rhychwant. Dengys hyn na ddaeth dim o'r deffro mawr mewn diddordeb hanesyddol a fu yn Lloegr yng nghyfnod Elisabeth I i Gymru ac nid tan ddiwedd y 18ed ganrif a dechrau'r 19eg y dechreuwyd cyhoeddi llyfrau ar hanes

Cymru fel y cyfryw, a hynny yn Saesneg.

Cwestiwn diddorol yw paham fod y Cymry wedi ymroi cymaint i'r deunydd crefyddol, a chrefyddol ac enwadol a gofnodir yn y cyfrolau hyn. Tybed ai rhyw fath o atgyfeirio ydoedd, math o iawn am golli bodolaeth genedlaethol a gwleidyddol ar ôl Deddf Uno 1536; chwilio am le yn y nefoedd, fel petai, ar ôl colli ein lle yma ar ddaear Prydain; ymlonyddu mewn bod yn arallfyddol a duwiol.

Wrth natur, nid oedd y Cymry ronydd mwy crefyddol nag unrhyw genedl arall cyn oes y Tuduriaid ac y mae ein cerdd dafod yn loyw ac ysbrydlon cyn inni golli ein sofraniaeth cenedlaethol. Bu newid ar ôl 1820, ond mae llên y newid hwnnw tu hwnt i ffiniau'r cyfrolau hyn.

* * *

ARDDIWEDD y gyfrol gyntaf, gadawodd Gwasg y Llyfrgell bedair tudalen wag i 'Nodiadau.' Hyd yma, gallaf nodi yma bedwar teitl sydd gennyf nas gwelais wedi eu corlannu. Un yw 'A History of Modern Enthusiasm' gan Theophilus Evans yn 1752 a 1757, - llyfr y cafodd R.T. Jenkins gymaint diddanwch ohono. A'r ail (braidd yn annisgwyl) yw'r gwaith mawr a olygodd Moses Williams, sef 'Cyfreithiau Hywel Dda ac Eraill' o gasgliad William Wotton a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1730. 'Churchyard Thomas. The Worthiness of Wales - a poem. Arg. cyntaf 1587. Reprinted for Thomas Evans in the Strand, London 1776.' Ynghyd â 'T(orbuck) J(ohn). A collection of Welsh Travels and Memoirs of Wales 1706 Llundain.'

Ond go brin, mi gredaf, fydd teitlau disberod. Yma, unwaith ac am byth fe gorlanwyd crynswth llyfrau 1546-1820 a bydd cenedlaethau ar ôl dydd pawb ohonom ni yn diolch i Miss Rees am roi ugain mlynedd o'i hoes i'r llafur mawr hwn.

Wrth roi cyfarwyddiadau i'r darllenydd ar y dechrau, fe ddywedd: 'Byddai'n dda gennyf pe bai modd ail gychwyn'; tybed a yw hi'n ormod gobeithio y bydd hi yn dilyn ymlaen â'r gwaith i'r ganrif bwysicaf oll yn hanes argraffu Cymraeg?

ÔL-NODIAD: Wedi cael cyfle i feddwl wele restr bellach o gyfrolau am Gymru na chynhwyswyd mohonynt. Hyn yn codi cwestiynau - megis pam cynnwys teitlau Cymreig Pennant heb gynnwys rhai Skrine ac eraill.

SKRINE, Henry. Two successive Tours throughout Wales. London 1798.

WARNER, Richard. A Walk through Wales in August 1797. London. 1798.

JOHNSON, Samuel. A Diary of a Journey into N. Wales in 1774. Ed: R. Duppa. London 1816.

PATT, Mr. Gleanings through Wales, Holland & Westphalia. 4th Edn. 1798. London. (Vol.I., yn delio â Chymru. tt.1-301).

AIKIN, Arthur. Journal of a Tour through N. Wales & Part of Shropshire. 1797. London.

JONES, Hugh (Maesglasau). Y Credadyn Iachusol. Ar Droedigaeth Efangyliaid. 1798? Amwythig. Rhan I.

PUGH, Edward. Cambria Depicta: A Tour through N. Wales. Illustrated. 1816. London.

CROUCH, Humphrey. The Welch Traveller or the Unfortunate Welchman. 1671. London. Reprinted J.O. Haliwell. Chiswick Press. Ltd: Edn 30 copies.

WYNDHAM, H.P. A Tour through Monmouthshire & Wales. 1781. Salisbury.

MALKIN, B.H. The Scenery, Antiquities & Biography of S. Wales. 1807. London.

RICHARDS, Geo. Songs of the Aboriginal Bards of Britain. 1792. Oxford.

SOTHEBY, Wm. A Tour through parts of Wales, Songs, Odes, etc: 1794. London.

GILPIN, Wm. Observations on the River Wye. 1798. London.

SEWARD, Anna. Llangollen Vale with Other Poems. 1796. London.

JERNINGHAM, Ed: The Welch Heiress. A Comedy. 1795. London.

BENNET, Mrs. Anna, or Memoirs of a Welch Heiress. 1796. London.

ANON: Jenkin of Wales. His Love-Course and Perambulation. 1647. Reprint: J.O. Haliwell. 1861. London. Ltd: Edn of 30 copies.

ANON: The Humple Remonstrance of Rice ap Meredith ap Morgan etc. 1632. London. Reprint J.O. Haliwell. 1861 Ltd: Edn 30 copies.

AUBIN, Mrs. The Life of Madam de Beaumont, a French Lady who Lived in a Cave in Wales about 14 years undiscovered. 2nd Edn. 1728. London.

MANBY, G.W. An Historic & Picturesque Guide from Clifton through the Counties of Monmouth, Glamorgan & Brecknock. 1802. Bristol.

LUCAS, Charles. Gwylgordd or the Child of Sin. A Tale of Wels Origin, 3 vols: 1820. London.

(?) OGILVIE. The Fate of the Druids. A Poem. 1787. London.